

***Mae gan y Pecyn Gweithgarwch yma gyfoeth o wybodaeth i helpu gyda rheoli mynwent eich eglwys, eich mynwent gyhoeddus neu eich safle claddu lleol yn sensitif.***

Ceir canllawiau ar reoli cynefinoedd bywyd gwyllt fel glaswelltir a choed, a nodweddion arbennig fel pyrth mynwentydd, waliau terfyn a hen waith carreg. Hefyd cewch wybodaeth am sut mae cynnwys eraill a sut mae gwneud defnydd o'r manau hyn ar gyfer dysgu a gweithgarwch cymunedol.

Mae'r Pecyn Gweithgarwch yn rhoi sylw i amrywiaeth eang o bynciau fel bod posib edrych ynddo i ateb cwestiynau bach a mawr:

- **Beth gall ein gwirfoddolwyr ei wneud i gadw coed yn iach ac yn ddiogel?**
- **Pa ddarn ydi'r darn gorau o laswellt i'w dorri'n fyr a pha ddarn ddylid ei adael i dyfu'n hirach?**
- **Sut gallwn ni annog mwy o anifeiliaid fel adar a glöynnod byw i ymweld â'n safle ni?**
- **Pa weithgareddau fedrwn ni eu cynnig i bobl ifanc?**

Fel dewis arall, gall yr wybodaeth gynhwysfawr yn y Pecyn Gweithgarwch yma eich arwain chi i ymwneud â phrosiect cymunedol arbennig, yn seiliedig ar fynwent eich eglwys leol neu eich safle claddu lleol.

Pa ddulliau rheoli bynnag fyddwch chi'n eu dewis ar gyfer eich safle claddu, bydd y Pecyn Gweithgarwch yma'n eich arwain chi drwy beth sydd orau er mwyn 'gwarchod bywyd gwyllt, cynnal y dreftadaeth a chynnwys pobl'.

Os yw'n cael ei ddefnyddio i gefnogi prosiect cymunedol ar raddfa lawn neu am gyngor yn ôl yr angen, rydym yn gobeithio y byddwch chi'n teimlo bod Pecyn Gweithgarwch Gofalu am Erw Duw o help i chi.

A chofiwch roi gwybod i ni sut mae pethau'n datblygu gyda rheoli mynwent eich eglwys leol neu eich safle claddu lleol.

Gofalu am Erw Duw  
11 Drovers House,  
The Auction Yard,  
Craven Arms.  
Swydd Amwythig SY7 9BZ

Ffôn: 01588 673041

[www.caringforgodsacre.org.uk](http://www.caringforgodsacre.org.uk)

© Caring for God's Acre Elusen gofrestredig 1084504

